GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Diweddariad am y brechlyn
# Vaccination Update



*Cylchlythyr Wythnosol* *Weekly Newsletter* **11 Hydref 2021 Rhifyn 39**

## CYNNYDD WYTHNOSOL 4 HYDREF - 10 Hydref 2021

**Rydym yn falch o gyhoeddi bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi rhoi 924,684 o frechiadau Covid-19 ers dechrau'r Rhaglen Brechu Torfol Covid-19, drwy gyfuniad o ganolfannau brechu torfol, timau brechu symudol, cyfleusterau cymunedol dros dro a phractisau Meddyg Teulu.**

**Lansiwyd y Rhaglen Atgyfnerthu ar 20 Medi.**

**Ers y dyddiad hwn, rydym wedi rhoi 41,602 o frechiadau atgyfnerthu Covid-19, sy'n gyflawniad arbennig. Mae hyn wedi cynnwys cynnig brechiadau i breswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr, pobl dros 75 oed a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen, a phobl imiwnoataliedig.**

### Ein Tîm Brechu Symudol

Mae ein timau symudol yn parhau i gynnig brechiadau atgyfnerthu Covid-19 i breswylwyr mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr ledled Gwent. Rydym wedi cynnig brechiadau atgyfnerthu mewn 69 o gartrefi gofal i oedolion hŷn yn ystod tair wythnos gyntaf y rhaglen atgyfnerthu.




Yn y llun, mae Linda Doyle a Cheryl Keelins sydd wedi bod yn cynnig brechiadau trwy ein gwasanaeth brechu symudol. Maent yn rhan o dîm cryf o nyrsys a gweithwyr gofal iechyd ymroddgar, yn ymweld â rhai o drigolion mwyaf bregus ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

### Apwyntiadau ar gyfer y Rhaglen Brechiadau Atgyfnerthu

Os byddwn yn cynnig apwyntiad i chi, gwnewch bopeth y gallwch ei fynychu gan ein bod yn brechu miloedd o bobl bob wythnos. Diolch.



**Cyrhaeddwch yn brydlon ar gyfer eich apwyntiad brechu COVID-19**

## YR WYTHNOS I DDOD 18 HYDREF - 24 HYDREF 2021

**Pwy ydym ni'n eu brechu'r wythnos hon?**
Yr wythnos hon, rydym yn parhau i frechu trigolion imiwnoataliedig, preswylwyr cartrefi gofal i oedolion hŷn a'u gofalwyr, trigolion dros 75 oed, pobl ifanc â chyflyrau iechyd sylfaenol, staff iechyd a gofal cymdeithasol y rheng flaen, ynghyd â phlant 12-15 oed.

**Sut fyddaf yn cael fy ngwahodd i fy apwyntiad am frechiad atgyfnerthu COVID-19?**
Gwahoddir unigolion i fynychu apwyntiad brechiad atgyfnerthu Covid-19 drwy'r post, yn yr un modd ag y cawsant eu hail ddos. Hoffem annog pawb i fynychu'r apwyntiad cyntaf sy'n cael ei gynnig iddynt. Os nad yw hyn yn bosibl, mae opsiwn i adael eich enw, dyddiad geni a rhif ffôn i'w ffonio'n ôl ar ein llinell archebu. Diolch am eich dealltwriaeth ac amynedd yn ystod y cyfnod hwn.

**Ymhle y caf gynnig brechiad?**
Bydd trigolion cymwys sy'n byw ym **Mlaenau Gwent, Torfaen, Bwrdeistref Sirol Caerffili neu Gasnewydd** yn cael gwahoddiad gan y Bwrdd Iechyd i fynychu Canolfan Brechu Torfol yng Nglynebwy, Pontllanfraith, Casnewydd neu Gwmbrân.
Bydd trigolion cymwys sy'n byw yn **Sir Fynwy** yn cael gwahoddiad i fynd am frechiad gan naill ai'r Bwrdd Iechyd neu'r Meddyg Teulu/fferyllfa.



**Galw ar fenywod beichiog:**

Nid yw'r rhan fwyaf o fenywod beichiog sy'n cael eu heintio â COVID-19 yn ddifrifol wael. Fodd bynnag, mae risg isel o salwch difrifol i'r fam a'r baban, megis angen eu derbyn i uned gofal dwys a genedigaeth gynamserol. Mae'r risgiau hyn yn uwch yn ddiweddarach mewn beichiogrwydd ac ymhlith menywod sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol.

**Ffoniwch 0300 3031373** i drefnu eich apwyntiad am frechlyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.rcog.org.uk/covid-vaccine

**Imiwnoataliedig**

Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cynnig trydydd dos sylfaenol o'r brechiad COVID-19 i unigolion 12 oed a hŷn sydd â gwrthimiwnedd difrifol, oherwydd cyflyrau iechyd sylfaenol neu driniaeth feddygol. Yn ôl cyngor y JCVI, dylai'r grŵp hwn o gleifion fod yn flaenoriaeth o ran cael trydydd dos, gan ei bod hi'n bosibl nad yw eu brechiadau sylfaenol wedi datblygu ymateb imiwnedd digonol hyd yn hyn.

Os ydych chi'n teimlo eich bod yn rhan o'r grŵp hwn, cysylltwch â'n tîm brechu ar 0300 303 1373 cyn gynted â phosibl. Bydd ein tîm yn cymryd manylion perthnasol ac yna'n cysylltu â'ch clinigwr i gadarnhau eich safle. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
www.gov.uk/government/publications/third-primary-covid-19-vaccine-dose-for-people-who-are-immunosuppressed-jcvi-advice/joint-committee-on-vaccination-and-immunisation-jcvi-advice-on-third-primary-dose-vaccination

Gwybodaeth ynghylch pàs y GIG: https://gov.wales/nhs-covid-pass-prove-your-vaccination-status

Am ragor o wybodaeth ynghylch y Brechiad Covid-19, ewch i: https://abuhb.nhs.wales/coronavirus/covid-19-vaccine/

Gwybodaeth ynghylch y Brechiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:
https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/covid-19-vaccination-information/